# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Hydref 2020

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddNHAMG@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat (13.30 - 13.45)**

**Yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix)**

**Cyfarfod preifat (13.45-14.30)**

**1 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Cymru'r Dyfodol - Sesiwn friffio gyda chynghorydd arbenigol**

(13.45-14.30) (Tudalennau 1 - 12)

Graeme Purves, Cynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

**Egwyl (14.30-14.45)**

**Cyfarfod cyhoeddus (14.45-16.00)**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.**

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14.45)

## 3 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft: Cymru'r Dyfodol - sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(14.45-16.00) (Tudalennau 13 - 50)

Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Jon Fudge, Pennaeth Polisi Cynllunio

Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil (Atodiad yn unig yn Gymraeg)

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - dilyniant i sesiwn dystiolaeth 17 Medi 2020

(Tudalennau 51 - 55)

Dogfennau atodol:

Llythyr

### 4.2 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU

(Tudalennau 56 - 58)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Torri'r rheol 21 diwrnod a Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 59 - 60)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**4.4 Papur briffio gan Dŵr Cymru mewn perthynas â Llyn Anafon**

(Tudalennau 61 - 64)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## Cyfarfod preifat (16.00-16.30)

## 6 Trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitem 3

## 7 Trafodaeth ar flaenraglen waith y Pwyllgor

(Tudalennau 65 - 68)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
—
Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Eitem 4.1

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

---

6 Hydref 2020

Annywl Lesley,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Medi. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn ysgrifennu atoch i drafod sawl mater ymhellach. Mae'r llythyr hwn hefyd yn rhoi sylw i nifer o faterion a godwyd gyda'r Pwyllgor gan randdeiliaid mewn ymateb i alwad am dystiolaeth ysgrifenedig mewn perthynas â COVID-19. **Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ymateb erbyn 6 Tachwedd**, fel y gall eich ymateb lywio'r sesiwn graffu nesaf yr ydych wedi cytuno i'w mynychu.

**Lles Anifeiliaid**

*Gwerthu cŵn bach gan drydydd parti*

1. Yn eich Datganiad Ysgrifenedig ar 5 Hydref, gwnaethoch gyhoeddi "y bydd gwaharddiad ar werthiant masnachol gan drydydd parti yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd y Senedd hon." A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch pryd y byddwch yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth? A wnewch chi gytuno i ddarparu'r is-ddeddfwriaeth ar ffurf ddrafft i'r Pwyllgor ymlaen llaw er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried a rhoi adborth arnynt?

*Cartrefi Cŵn a Chathod*

2. Mae'r Pwyllgor wedi cael gwybodaeth gan y Gymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod (ADCH) mewn perthynas â'r sector achub anifeiliaid yng Nghymru. Mewn ymateb i arolwg a gynhaliwyd ynghylch effaith COVID-19, dim ond dau ymatebydd o Gymru oedd yn sicr y byddent yn parhau i fod yn solfent ar ôl diwedd eleni. Rhagwelodd y rhai o Gymru a ymatebodd i'r un arolwg ostyngiad mewn incwm ar gyfartaledd o 80 y cant o ganlyniad i COVID-19. O gofio y bydd yr effaith ar y sector yn debygol o barhau am beth amser, pa gymorth fydd ar gael i sicrhau y gall sefydliadau yng Nghymru barhau i weithredu?

*Practisau milfeddygol*

3. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod COVID-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar bractisiau milfeddygol ac nad ydynt wedi gallu cael mynediad at rywfaint o'r cymorth ariannol a ddarperir i fusnesau oherwydd

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddNHAMG@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCERA@senedd.wales
0300 200 6565

natur unigryw eu gwaith. A allwch roi manylion i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Chymdeithas Milfeddygon Prydain am effaith COVID-19 ar y sector? A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y grantiau a'r cymorth ariannol sydd ar gael i'r sector?

**Pysgodfeydd**

4. Rydych wedi dweud wrth y Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i fusnesau dyframaethu cymwys drwy'r cynllun Cymorth i Fusnesau Dyframaethu, a ddaeth i ben ar 21 Medi. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch y niferoedd sy’n manteisio ar y cynllun?
5. Tynnodd WFA-CPC (Welsh Fishermen’s Association - Cymdeithas Pysgotwyr Cymru) sylw'r Pwyllgor at y "swm canlyniadol o dan fformiwla Barnett" y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael drwy ddyraniadau i gronfa ymateb pysgodfeydd Llywodraeth y DU. A allwch gadarnhau faint o gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael a faint o'r cyllid hwn a ddefnyddiwyd i gefnogi pysgodfeydd yng Nghymru?
6. A oes gennych gynlluniau i ymestyn Grant Pysgodfeydd Cymru? Pa gymorth ariannol pellach fydd ar gael i bysgotwyr Cymru i ymdrin ag effeithiau’r pandemig?
7. Soniodd WFA-CPC wrth y Pwyllgor am yr effaith ddifrifol ar y sector o ganlyniad i gau marchnadoedd allforio, megis Asia. Yn ôl y tebygolrwydd na fydd y sefyllfa hon yn cael ei datrys yn fuan, pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd neu a gymerwyd gennych eisoes i gynyddu faint o fwyd y môr sy’n cael ei fwyta’n ddomestig?
8. Mae Llywodraeth y DU wedi trefnu bod cyllid ar gael i fusnesau sy'n canolbwyntio ar brosesu a gwerthiannau uniongyrchol. A yw hyn yn rhywbeth yr ydych wedi’i ystyried ar gyfer Cymru?
9. Mae COVID-19 a chau marchnadoedd allforio wedi cael effaith ddifrifol ar y sector ac mae’n wynebu cryn ansicrwydd gyda Brexit “dim cytundeb” posibl ond fisoedd i ffwrdd. A allwch roi manylion i'r Pwyllgor am eich cynlluniau i gefnogi pysgodfeydd a busnesau dyframaethu pe bai Brexit "dim cytundeb"?

**Bwyd a diod**

10. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau yr ydych wedi'u cael neu yr ydych yn bwriadu eu cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch y cynigion i wneud newidiadau i'r cynllun Rhyddhad i Fragwyr Bach?
11. Dywedodd Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd, yn ystod pandemig COVID-19, “Businesses have experienced rapid increases in consumer demand for Welsh grown produce”. Dywedodd y Rhwydwaith Bwyd Agored (OFN) wrthym ers argyfwng COVID-19 y bu cynnydd o 850 y cant mewn trosiant drwy siopau’r OFN ar draws Cymru. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau y gellir trosi cynnydd o'r fath i newidiadau hirdymor mewn ymddygiadau o ran defnydd?

**Ansawdd aer**

12. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor “the first two months of lockdown really showed significant decreases in some pollutant levels, but other pollutant levels apparently increased at the same time.” A allwch roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y mater hwn, yn enwedig yr ardaloedd hynny lle cynyddodd llygryddion? Ydych chi'n credu y gellir dysgu unrhyw wersi o'r amrywiant hwn?
13. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- unrhyw drafodaethau yr ydych wedi’u cael â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chyfyngu ar werthu a defnyddio tân gwyllt, a

- chanlyniad y gwaith a wnaed gan swyddogion o fewn adrannau i ganfod ble orau y gall Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion i leihau effaith negyddol tân gwyllt ar bobl ac anifeiliaid?

**Adferiad gwyrdd/glas a newid hinsawdd**

14. A wnewch chi ymrwymo i sicrhau y bydd materion morol yn rhan ganolog o unrhyw waith adferiad "gwyrdd"? A allwch roi enghreifftiau o sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni?
15. Rydych wedi dweud wrth y Pwyllgor eich bod yn aros am adroddiad sy'n deillio o'r gwaith y mae Syr David Henshaw wedi bod yn ei arwain ar yr adferiad gwyrdd/glas. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r gwaith hwnnw cyn gynted ag y gallwch?

**Amaethyddiaeth a diogelwch bwyd**

16. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod grŵp rhanddeiliaid cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yr UE wedi cyfarfod yn ddiweddar am y tro cyntaf. A allwch roi rhagor o fanylion am ddiben ac aelodaeth y grŵp?
17. Dywedodd Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd wrth y Pwyllgor fod Cymru ar hyn o bryd yn dibynnu ar fewnforion ar gyfer 95 y cant o'i ffrwythau a'i llysiau ffres. Pa waith paratoi a wnaed i sicrhau, pe bai Brexit "dim cytundeb", y gall cynhyrchwyr bwyd domestig gamu i mewn i lenwi unrhyw fylchau yn y gadwyn cyflenwi bwyd? A wnewch chi ymrwymo i gyflwyno cynllun i gynyddu'r defnydd o fwyd a gynhyrchir yn ddomestig os yw'n dod yn anoddach i fewnforio bwyd?
18. Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar eich dull o ran polisi bwyd yng Nghymru? Rhowch enghreifftiau, os gwelwch yn dda.
19. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am bolisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhandiroedd?
20. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor "COVID-19 has shown me how many more discussions I should be having with supermarkets". A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr archfarchnadoedd yr ydych wedi'u trefnu hyd at Nadolig 2020?

**Sbwriel a gwastraff plastig**

21. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol wrthym ei bod yn rhagweld y byddai lefelau llygredd ar draethau Cymru yn codi dros fisoedd yr haf "given that there are now limited opportunities for organisations such as ourselves to be able to undertake beach cleans using dedicated volunteers, coupled with a likely overall increase in domestic coastal holidays". Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o unrhyw gynnydd mewn llygredd morol o ganlyniad i hyn?

**Materion eraill**

22. Mae nifer o randdeiliaid y Pwyllgor wedi elwa ar Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r sector ynghylch unrhyw gymorth ariannol pellach y bydd ei angen ar ôl i'r trefniadau ffyrlo ddod i ben?

23. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) wrth y Pwyllgor "Many elements of the Welsh Government's Environmental Growth agenda will depend on the work of charities, and many conservation and community projects are partnerships between Government agencies and civil society." Aeth ymlaen i ddweud "On-going financial losses will hamper the ability of

charities to deliver essential conservation and infrastructure improvement work." Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i effaith hyn ar gyflawni polisïau amgylcheddol a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru?

**Fframweithiau Cyffredin**

24. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu Fframweithiau Cyffredin sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys eich dealltwriaeth ddiweddaraf o ran pryd y bydd fframweithiau dros dro ar gael i'r Senedd graffu arnynt?
25. Ydych chi'n fodlon â'r broses ar gyfer datblygu a chwblhau'r Fframweithiau Cyffredin? A oes gennych unrhyw bryderon penodol ynghylch unrhyw un o'r fframweithiau sy'n dod o fewn eich cylch gwaith?

**Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol**

26. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau diwygiad i Fil Amgylchedd y DU i wneud darpariaeth ar gyfer cydweithio rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol cyfatebol?
27. A allwch gadarnhau y bydd mesurau llywodraethu amgylcheddol dros dro ar waith erbyn diwedd y Cyfnod Gweithredu?
28. Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r weithdrefn gwyno dros dro?
29. Rydych wedi dweud wrth y Pwyllgor o'r blaen eich bod yn bwriadu rhoi trefniadau ar waith i bob cwyn gael ei hasesu'n annibynnol. Pwy ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r asesiadau hyn?
30. A allwch egluro a ydych, a phryd, yn bwriadu cyhoeddi cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol tymor hwy?

Yn gywir,



Mike Hedges AS

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

5 Hydref 2020

Annwyl Lesley

**Ymateb y Pwyllgor i'r adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Pysgodfeydd, a materion yn ymwneud â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Pysgodfeydd**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Hydref 2020 sy'n cynnwys eich **ymateb** i'r argymhellion yn ein **hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Pysgodfeydd**, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4)** (a osodwyd ar 1 Hydref 2020) a'r diwygiadau ychwanegol a geisir yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Yn ogystal â hyn, roedd yn ddefnyddiol inni gael yr ohebiaeth rhyngoch chi a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Victoria Prentis AS, ar y cytundeb rydych chi wedi'i geisio mewn perthynas â darpariaethau'r Bil ynghylch penderfynu ar gyfleoedd pysgota.

Gan mai ar 1 Hydref y cafodd Memorandwm Rhif 4 ei osod, byddwch yn amlwg yn deall ei bod bron yn amhosibl ymgymryd â gwaith craffu cyn y ddadl yfory ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil. Rydym hefyd wedi nodi nad yw Memorandwm Rhif 4 yn adlewyrchu'r wybodaeth rydych wedi'i darparu i ni yn eich llythyr dyddiedig 1 Hydref ynghylch y diwygiadau ychwanegol a geisir yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

Credwn fod angen ichi egluro nifer o bwyntiau ymhellach, a hynny mewn perthynas â Memorandwm Rhif 4 a'r diwygiadau ychwanegol rydych chi'n eu disgrifio yn eich llythyr, a hynny ar fyrder. At hynny, mae nifer o faterion yr hoffem eu trafod ymhellach â chi yn ymwneud â'ch ymateb i'n hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

1. O ran diwygiadau rhif 144, 145 a 146 Llywodraeth y DU a wnaed yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ond na chyfeiriwyd atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), rydym wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio'r diwygiadau hyn "i sicrhau bod cwmpas pwerau Gweinidogion Cymru o dan Atodlen 8 yn cyd-fynd â chymhwysedd Senedd Cymru". Fodd bynnag, nid yw'n amlwg i ni fod angen y diwygiadau hyn a hoffem ichi fanylu ar hyn.

2. O ran y diwygiadau ychwanegol a geisir yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin:
    a. Pa ddiwygiadau a geisir i gymhwyso *Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil (wedi iddo ddod yn ddeddf), a pham mae angen y diwygiadau hyn?
    b. Pa ddiwygiadau a geisir i ddarparu'r pwerau sydd, yn eich barn chi, yn angenrheidiol er mwyn i'r gweinyddiaethau pysgodfeydd allu ymrwymo i drefniadau asiantaeth "a fyddai'n galluogi cydweithredu ac arfer swyddogaethau'n effeithlon er mwyn cyflawni canlyniadau cadarn ac effeithiol o ran rheoli pysgodfeydd" ac, unwaith eto pam mae angen y rhain?
    c. Sut rydych chi'n gobeithio gwella Atodlenni 3 ac 8 o ran "cwmpas a gweithrediad pwerau Gweinidogion Cymru a'u perthynas â phwerau cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol"?
    d. Pa ddiwygiadau rydych chi wedi'u ceisio i ofynion yr ymgynghoriad sy'n berthnasol i bwerau Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion o dan adran 134A a 134B?
    e. Pam rydych chi'n ceisio'r diwygiadau hyn mor hwyr yn y broses?

3. Ynglŷn â'ch ymateb i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2:
    a. Rydym yn cydnabod bod eich llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ynghylch penderfynu ar gyfleoedd pysgota yn nodi'n glir yr hyn rydych chi'n ei ddisgwyl o unrhyw gytundeb rhynglywodraethol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur i ni sut mae'r ymateb a gawsoch yn cadarnhau ac yn derbyn y gofynion a'r disgwyliadau a nodwyd yn eich llythyr. A ydych chi'n fodlon ar ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol Seneddol ac, os felly, pam, o ystyried y diffyg eglurder?
    b. Pam rydych chi o'r farn ei bod yn ddigonol ymrwymo i gyflwyno adroddiad i'r Senedd bob dwy flynedd ar weithredu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â Chymru yn unig, hyd nes y cyflwynir Bil Pysgodfeydd Cymru, yn lle cynnwys darpariaeth machlud yn y ddeddfwriaeth?
    c. Nid ydym yn credu'ch bod wedi egluro o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn hwylus arfer y pwerau yn Atodlen 3 fel awdurdod trwyddedu pysgod môr. At hyn, mae cwestiynau eraill yn codi o'ch ymateb. Rydych wedi dweud "Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn, ond **byddwn yn nodi y gallai'r pwerau trwyddedu hyn fod yn rhan o'r llyfr statud am nifer o flynyddoedd, degawdau o bosibl** *(ein pwyslais ni)*, fel deddfwriaeth sylfaenol flaenorol ar gyfer trwyddedu pysgota môr. O'r herwydd, mae angen y pŵer hwn arnom, ac i'r un graddau y bydd gan awdurdodau trwyddedu pysgota môr eraill y DU, i atodi amodau i drwyddedau sydd i'w gweld yn angenrheidiol neu'n hwylus, i

> ymateb i unrhyw anghenion wrth iddynt newid i sicrhau bod trefniadau trwyddedu pysgodfeydd yn gyfredol ac yn addas at y diben." Pam rydych chi'n ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol i Fil y DU gymryd pwerau a allai fod yn rhan o'r llyfr statud am ddegawdau er mai dim ond trefniant dros dro i reoli pysgodfeydd yng Nghymru oedd hwn i fod?

O ran argymhellion 6 a 7 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2, nodwn eich ymateb ond rydym yn parhau i bryderu y gallai'r Senedd fod yn colli pwerau.

Un pwynt olaf yr hoffem dynnu sylw ato yw'r camddealltwriaeth anffodus sy'n cloi'ch llythyr at y Pwyllgor. Nid ydym wedi dweud y byddem yn argymell rhoi cydsyniad yn amodol ar eglurder a sicrwydd.

Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i wneud penderfyniad yn ystod y ddadl y Cyfarfod Llawn yfory, byddwn yn eich annog i ddarparu'r eglurder yr ydym wedi gofyn amdano pan fyddwch yn cyfrannu at y ddadl.

Hoffwn ofyn ichi hefyd ymateb yn llawn i'r llythyr hwn cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Yn gywir



Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**



Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol
Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

5 Hydref 2020

Annwyl bawb,

**Torri'r rheol 21 diwrnod a Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Yn ein cyfarfod ar 28 Medi 2020 gwnaethom drafod **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020**, **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020** a **Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**.

Roedd ein hadroddiadau dilynol yn nodi bod yr offerynnau wedi'u gosod **gan dorri'r rheol 21 diwrnod,** a'r rhesymau dros wneud hynny, fel y'u nodwyd yn llythyrau'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd.

Rydym wedi cydnabod y gallai'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 fod yn rheswm dilys dros dorri'r rheol 21 diwrnod. Fodd bynnag, mae gennym amheuon ynghylch a oedd yn angenrheidiol torri'r rheol honno ar gyfer Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rydym o'r farn, o ystyried nad yw'r cyd-destun ar gyfer y darpariaethau yn y Rheoliadau wedi newid rhyw lawer yn ystod y misoedd diwethaf, y gallai wedi bod yn bosibl rhagweld yr angen amdanynt ac yn unol â hynny, y dylai wedi bod yn bosibl caniatáu i 21 diwrnod fynd heibio cyn iddynt ddod i rym. Felly, byddem yn croesawu eglurhad pellach ynghylch pam yr ydych o'r farn yr oedd angen torri'r rheol 21 diwrnod y tro hwn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig oherwydd arwyddocâd y Rheoliadau hyn mewn perthynas â materion cynllunio.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

# Llyn Anafon

Restoring Llyn Anafon – Briefing

## Overview

Over the next five years, Welsh Water will be carrying out work at Llyn Anafon to restore it to its natural state.

Llyn Anafon is located in Snowdonia National Park, around three miles above Abergwyngregyn, Gwynedd on land owned by the National Trust and is part of the Eryri Site of Specific Scientific Interest (SSSI) and Snowdonia Special Area of Conservation (SAC). A dam was created in the lake in 1931 impounding the water to provide drinking water to residents in the surrounding area.

Over the years we have changed the way water is supplied to customers in the area which means that Llyn Anafon reservoir is no longer used to supply drinking water and therefore is no longer required as a reservoir. This means that Llyn Anafon can be return to its natural state and to how it was before the dam was built.

## Location



# Llyn Anafon

Restoring Llyn Anafon – Briefing


## How will we do the work?

To restore the lake to its natural state, we need to return the level of the water to how it was before the dam was built, which is 1.4m lower than what it is now. But to make sure we preserve wildlife and the aquatic plants at Llyn Anafon we will be reducing the level of the water in the lake very slowly over at least 5 years and carrying out the work in three phases.

- Phase 1 will be done in the spring of 2020 and will begin with enabling work including improvements to the access lane, upgrading pipework between the reservoir and river to protect the lake's habitat and the dam during the work, and modifying the existing tower replacing masonry walls with stop logs which will be used as wooden boards which over time can be removed one by one to allow the water to flow over the top layer into the tower and out of the pipework.

- Phase 2 will be carried out over a minimum of 5 years (from summer 2020 – 2025) or longer if required. During this time the water will be lowered around 30cm per year by taking a layer of the stop logs from the tower, this means that the level of the walls of the tower will be lowered slowly by removing one of the wooden boards at a time.

  When we've finished the work, the logs and walkway will be removed from the tower but we will leave the walkway pillars and spillway as part of the lake's heritage



- Phase 3 will be carried out after the water in the lake has reached the required level, where the dam will be lowered to the original stream bed height and a new weir will be created to allow water from the lake to flow to the stream.

## Environment and Ecology

Llyn Anafon is considered as one of the most important lakes in the Eryri Special Area of Conservation and is internationally significant because of its plant community. It is home for two extremely rare water plant species (*Potamogeton x gessnacensis* and *P. x griffithii*) both of which are restricted to only one or two other lake sites in the UK. These plants need very high-water quality to grow and live at a certain depth.



The project approach has been developed to minimise impact on the sensitive ecological features of the site. To do this, a number of mitigation measures and ecological monitoring have been incorporated into the project and will continue even after work on site has been completed.

# Llyn Anafon



In fact, the reason that the project has been designed to expand over several years is because the intention to enable the ecological features at the lake to take time to adapt as the lake is being returned to its former natural level. A close monitoring regime will be undertaken to enable appropriate ecological mitigation measures to be taken promptly.



We have been working closely with Natural Resources Wales to ensure the least impact possible to the local environment and the wildlife in the area.

It is our aspiration that, once complete, the lake will continue to support habitats and species of ecological importance and remain a key ecological and cultural features of the Snowdonia National Park.

## The team



This scheme will see a number of teams within Welsh Water working collaboratively including our Capital delivery team which look after our investment in our assets who will be overseeing the work, Dam Safety team have been providing guidance on lowering the dam, the Environment Team who are central to ensuring any negative effect on the environment and ecology of the area is minimised and Communications team who will ensure that all stakeholders and local residents are aware of the planned work.

We have appointed Arup to carry out the design work for removing the dam and river reinstatement, to enable the re-naturalisation of the lake; they have worked closely with Natural Resources Wales (NRW) throughout the design. Arup is one of the world's most respected design, engineering and project management consultancies with vast experience of projects of this nature. Arup has been liaising closely, on behalf of Welsh Water, with a number of different partners including Snowdonia National Park, National Trust, and Natural Resources Wales, to achieve the most suitable approach to undertake the work at the site.



Health and Safety is always our top priority during construction. We have appointed Anglesey based contractors, William Hughes Civil Engineering Ltd to carry out the work. They are a highly experienced contractor with all relevant Health and Safety qualifications.

# Llyn Anafon

Restoring Llyn Anafon – Briefing

As the work will be carried out over five years, our contractors won't be on site every month. Our contractors will be working on site during the first phase of the work carrying out enabling work and the first part of the work. Following this, there will be a slow draw down process which means there will be no activity on site other than one visit a year to remove one layer of wooden boards in the tower to allow the water to drain down slowly.



Work will then be carried out on site during the final phase when work will be done to lower part of the dam to its original stream bed height. However, throughout the duration of the planned five years of the work, our dam team will continue with their regular visits to carry out routine checks of the reservoir and our specialist contractor will visit to monitor progress on the lowering of the water in the reservoir.

## Keeping you informed

So that we can let local residents, community groups and stakeholders know about the work we plan to do to return Llyn Anafon to its natural state, we will be holding an information event where local residents, groups and stakeholders can see our plans for the work, hear more information from the project team and ask any questions they may have.

The event will also give us the opportunity to see if there are any opportunities for Welsh Water to work with the community while we carry out the work in the area.

The information event will be held on Tuesday, November 5th at Yr Hen Felin, Abergwyngregyn, LL33 0LP from 2pm – 7pm. You are welcome to drop by to hear more information about the event.

During the work we will be keeping stakeholders updated about the work and customers can see updates on progress on our 'In my area' page on our website **www.dwrcymru.com** – customer can also sign up for updates on the work, and any other work Welsh Water are carrying out in their area through our 'In my area' page.

## More information

We'll keep you updated on the work, but should you have any questions, or you would like us to meet with you to go through the scheme, please do not hesitate in getting in touch with me, Gwenan Davies on 01745 405875.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon